

22 Medi 2009

Maria Schlee
Y Tîm Cyfryngau
Yr Adran Dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
5ed Llawr
2-4 Cockspur Street
Llundain SW1Y 5DH

Annwyl Maria Schlee,

Newyddion cynaliadwy annibynnol a ddiuedd; yn y Cenhedloedd, yn lleol ac yn y rhanbarthau

Rhagarweiniad

1.1 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad pwysig hwn. Croesawir ymgynghoriad yr Adran Dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ar newyddion cynaliadwy annibynnol a ddiuedd a hoffem gynnig y cyngor isod yn unol ag Adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Rhan 1

- Adran 3. – (2) ...bydd y Bwrdd –
- (a) yn cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar faterion ynglŷn â'r iaith Gymraeg;
 - (b) yn cynghori personau sy'n ymarfer swyddogaethau o natur gyhoeddus ar y ffyrdd o weithredu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal;
 - (c) yn cynghori'r rheiny a phersonau eraill sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ynghylch defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu hymwneud â'r cyhoedd yng Nghymru.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5/7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT
post@bwrdd-yr-iaith.org.uk
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Welsh Language Board
Market Chambers
5/7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT
post@welsh-language-board.org.uk
www.welsh-language-board.org.uk

T +44 (0)29 2087 8000
Ff +44 (0)29 2087 8001
Cadeirydd_Chair **Meri Huws**
Prif Weithredwr_Chief Executive
Meirion Prys Jones
Swyddfeydd eraill_Other offices
Caernarfon, Caerfyrddin_Carmarthen



1.2 Sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) fel corff statudol trwy Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Y mae'r Ddeddf yn sefydlu'r egwyddor y dylid, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, drin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal. Y mae gan y Bwrdd swyddogaethau a phwerau statudol sydd yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn paratoi Cynlluniau Iaith, i roi manylion sut y byddant yn gweithredu'r egwyddor uchod yn ymarferol. Cytunwyd Cynlluniau Iaith gydag Adran Dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU, S4C, OFCOM, y BBC a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r rhain oll yn gyrrff cyhoeddus sy'n ymhél a chynnal a datblygu'r ddarpariaeth darlledu gyhoeddus yng Nghymru.

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

1.3 Derbyniodd gynllun iaith Gymraeg yr Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (yr Adran) gymeradwyaeth dan Adran 21 Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn 2007. Mae'r cynllun yn datgan:

Bydd polisiau, mentrau a gwasanaethau DCMS yn gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg a byddant, lle bynnag y bo'n bosibl, yn helpu cyhoedd Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau bob dydd.¹

Yn unol â'r ymrwymiad yma, disgwylir bod yr Adran yn rhoi ystyriaeth briodol i'r iaith Gymraeg wrth gyflwyno unrhyw newidiadau a ddaw i ddarlledu newyddion yng Nghymru yn sgil yr ymgynghoriad hwn.

Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg

1.4 Yn 2003 cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg, *Iaith Pawb*, sy'n anelu at greu Cymru gwir ddwyieithog. Gwelir yn y ddogfen honno rôl ganolog i ddarlledu o fewn cynllunio dyfodol yr iaith Gymraeg.

Nodir yn *Iaith Pawb* bod

“...darlledu yn chwarae rhan bwysig mewn cadarnhau sawl agwedd o bolisi iaith ehangach y Llywodraeth ac yn tanlinellu statws yr iaith. Mae'r gwasanaeth teledu a

¹ Cynllun Iaith Gymraeg yr Adran Dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (2007), tudalen 7.

ddarperir gan S4C....yn ei gwneud yn bosibl i'r iaith fod yn rhan o fywyd bob dydd. Gall teledu yn enwedig fod yn ffynhonnell gefnogaeth bwysig i'r rhai hynny sy'n dysgu'r iaith².

Mae *Iaith Pawb* yn disgrifio blaenoriaethau a dyheadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y maes darlledu yng Nghymru. Gofynnwn i'r Adran roi sylw i'r ymrwymadau a roddir o fewn *Iaith Pawb* ac i sicrhau bod cysondeb ag egwyddorion ac amcanion *Iaith Pawb* wrth gynllunio newidiadau i'r ddarpariaeth newyddion yng Nghymru.

Darpariaeth gwasanaeth newyddion trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru

1.5 Un agwedd ar statws iaith yw pa mor weladwy ydyw. Mae gweld a chlywed y Gymraeg o fewn darlledu cyhoeddus yn fodd o gynyddu statws y Gymraeg ymysg siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg. Mae'r oriau darlledu newyddion cyfrwng Cymraeg a ariannir gan y ffi drwydded yn rhan ganolog o'r ddarpariaeth yma. Gofynnwn i'r Adran sicrhau na fydd unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth newyddion a ddaw yn sgil yr ymgynghoriad hon yn cael effaith andwyol ar ystod a safon y ddarpariaeth gyfredol.

Casgliad

1.6 Gwerthfawrogwn y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad yma. Am y rhesymau a nodir uchod, teimlwn ei fod yn ddyletswydd ar yr Adran i sicrhau na fydd unrhyw newidiadau i wasanaethau darlledu newyddion yng Nghymru a ddaw yn sgil yr ymgynghoriad hon, yn cyfyngu ar gyfleoedd i dderbyn ac i fwynhau gwasanaeth newyddion Cymraeg. Hyderwn y bydd y sylwadau uchod yn gymorth i'r Adran wrth gyflawni hyn.

Yn ddiffuant,

Ianto Brychan
Uned Llywodraeth Ganol a Chyfiawnder
Bwrdd yr Iaith Gymraeg

² *Iaith Pawb* (2003), Adran 4.47, tudalen 50.

22 September 2009

Maria Schlee
Media Team
Department for Culture, Media and Sport
5th Floor
2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH

Dear Maria Schlee,

Sustainable independent and impartial news; in the Nations, locally and in the regions

Introduction

1.1 The Welsh Language Board welcomes the opportunity to respond to this important consultation. The Department for Culture, Media and Sports' consultation on sustainable independent and impartial news is welcomed and the Board would like to offer the advice below under Section 3 of the 1993 Welsh Language Act.

1993 Welsh Language Act

Part 1

- Section 3. - (2) ...the Board shall...
- (a) advise the Secretary of State on matters concerning the Welsh language;
 - (b) advise persons exercising functions of a public nature on the ways in which effect may be given to the principle that, in the conduct of public business and the administration of justice in Wales, the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality;

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5/7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT
post@bwrdd-yr-iaith.org.uk
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Welsh Language Board
Market Chambers
5/7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT
post@welsh-language-board.org.uk
www.welsh-language-board.org.uk

T +44 (0)29 2087 8000
Ff +44 (0)29 2087 8001
Cadeirydd_Chair **Meri Huws**
Prif Weithredwr_Chief Executive
Meirion Prys Jones
Swyddfeydd eraill_Other offices
Caernarfon, Caerfyrddin_Carmarthen



- (c) advise those other persons providing services to the public on the use of the Welsh language in their dealings with the public in Wales.

The Welsh Language Board

1.2 The Welsh Language Board (the Board) is a statutory body established under the Welsh Language Act 1993 to promote and facilitate use of the Welsh language. The Act established the principle that, in the conduct of public business in Wales, the Welsh and English languages should be treated equally. The Board has statutory responsibilities and powers to ensure that public bodies prepare Welsh Language Schemes which detail how the above principle will be realised in practice. Welsh Language Schemes have been agreed with the UK Government's Department for Media, Culture and Sport, S4C, OFCOM, the BBC and the Welsh Assembly Government. All these organisations are involved in maintaining and developing the provision of public service broadcasting in Wales.

1993 Welsh Language Act

1.3 The Department for Culture, Media and Sport (the Department) Welsh language scheme was approved under Section 21 of the 1993 Welsh Language Act in 2007. The scheme states:

DCMS policies, initiatives and services will be consistent with the scheme. They will support the use of Welsh and will, whenever possible, help the public in Wales use Welsh as part of their day to day lives³.

Consistent with this commitment, it is expected that the Department gives consideration to the Welsh language when planning any changes to news provision in Wales which arise as a result of this consultation.

***laith Pawb* – the Welsh Assembly Government's action plan for the Welsh language**

1.4 The Welsh Assembly Government's Action Plan for the Welsh Language, *laith Pawb*, which aims to creating a truly bilingual Wales, was published in 2003. This document gives broadcasting a central role when planning for the future of the Welsh language.

³ *The Department for Culture, Media and Sport Welsh Language Scheme (2007), page 7*

Iaith Pawb states that

“....Broadcasting plays an important role in reinforcing many aspects of the Government's wider language policy and underlines the status of the language. The television service provided by S4C... make it possible for the language to be part of everyday life. Television in particular can be an important source of support for those learning the language⁴.”

Iaith Pawb describes the Welsh Assembly Government's priorities and objectives in the broadcasting field in Wales. The Board asks that the Department gives attention to the commitments made in *Iaith Pawb* to ensure that there is consistency with the document's principles and objectives when planning changes to news provision in Wales.

Welsh language news provision in Wales

1.5 One aspect of a language's status is its visibility. Seeing and hearing Welsh in public service broadcasting are a means of enhancing the status of Welsh amongst both Welsh and non-Welsh speakers. The Welsh language news broadcasting hours funded by the license fee are a central part of this provision. The Board asks that the Department ensures that any changes to the news service that result from this consultation do not have a negative affect on the range and standard of the current provision.

Conclusion

1.6 The Board appreciates the opportunity to respond to this consultation. For the reasons detailed above, the Board believes that the Department has a duty to ensure that the changes to news provision in Wales which result from this consultation do not restrict the opportunities to receive and enjoy a Welsh language news service. We hope that the comments above will assist the Department in achieving this.

Yours sincerely,

Ianto Brychan
Central Government and Justice Unit
Welsh Language Board

⁴*Iaith Pawb* (2003), Section 4.47, page 50.